



Ymddiriedolaeth GIG
Gwasanaethau Ambiwllans Cymru
Welsh Ambulance Services
NHS Trust

WAST Yn Cysylltu

IONAWR 2024



I Gefnogi.
I Wasanaethu.
I Achub.

Neges gan y Prif Weithredwr

Helo, a chroeso i'r ail yn y gyfres o WAST yn Cysylltu. Gobeithio eich bod wedi cael Nadolig a Blwyddyn Newydd fendigedig a'ch bod yn dod i mewn i 2024 wedi bwrw'ch blinder a magu nerth newydd. Rwyf am ddechrau drwy estyn diolch enfawr i staff a gwirfoddolwyr #TîmWAST a weithiodd dros gyfnod yr ŵyl. Mae bod yn wasanaeth 24/7 hefyd yn golygu gweithio dydd Nadolig, a dwi'n gwybod yr aberth sydd ei angen. Yn ail, rwyf am ddiolch i'r tafarndai, gwestai a bwytai ledled Cymru a baratôdd yn hael ginio Nadolig ar gyfer y 700 o staff a gwirfoddolwyr a oedd yn gweithio ar 25 Rhagfyr. Fel ein partneriaid ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, mae ein gwasanaeth ambiwlans yn hynod o brysur. Mae'r galw cronedig o gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, ynghyd â'r salwch tymhorol a welwn yr adeg hon o'r flwyddyn, yn golygu bod llawer o bobl ledled Cymru yn ceisio cael mynediad at wasanaethau iechyd ar hyn o bryd. Pan fydd ysbytai yn llawn, mae'n golygu na allant dderbyn cleifion o'r ambiwlansys, a thra eu bod yn dra phrysur mewn Adrannau Achosion Brys, mae cleifion eraill yn y gymuned yn aros yn hir am ein cymorth, ac mae'n ddrwg iawn gennym ni. Rydym yn gweithio'n galed iawn fel system i ddarparu'r gofal gorau i gleifion, a hoffem ddiolch i'r cyhoedd a'n partneriaid am eu hamynedd a'u cefnogaeth barhaus wrth i ni weithio mor gyflym â phosibl i gyrraedd cymaint o gleifion â phosibl. I rannu eich adborth ar ein cylchlythyr ar ei newydd wedd, gallwch anfon e-bost at WAST.Communications@wales.nhs.uk. Cymerwch ofal.



Jason Killens
Prif Weithredwr
Ymddiriedolaeth GIG
Gwasanaethau Ambiwllans
Cymru

Cipolwg ar Berfformiad

 Bu 37,841 o ddigwyddiadau 999	 Fe wnaeth ein gwasanaeth brys gludo 15,252 o bobl i'r ysbyty	Rhagfyr 2023 Cwblhaodd ein Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys 44,272 o deithiau 	 Bu 111,442 o alwadau i GIG 111 Cymru	Mynychwyd 979 o ddigwyddiadau gan Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol Gwirfoddol 	Cwblhaodd ein Gwasanaeth Ceir Gwirfoddol 2,895 o deithiau 
--	--	---	--	---	---

Tu ôl i'r Penawdau



Tîm brysbennu yn gwella profiad ac yn lleihau'r pwysau ar adrannau brys

Mae tîm brysbennu clinigol yr Ymddiriedolaeth wedi helpu i atal miloedd o deithiau ambiwlans i'r ysbyty yn ddiogel, mae'r Gweinidog Iechyd Eluned Morgan wedi datgelu. Mae mwy nag un o bob deg o alwadau 999 o gleifion a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi cael eu brysbennu gan Dîm Gofal Integredig WAST a gwelwyd gofal amgen yn cael ei ddarparu yn lle'r claf yn cael ei gludo i'r ysbyty. Cliciwch [**yma**](#) am fwy.

Yfarwyddwr Meddygol yn ymddeol ar ôl degawdau o wasanaeth

Mae ein Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Meddygol a Chlinigol yn ymddeol ar ôl gyrfa sydd wedi ymestyn dros bum degawd. Ymunodd Dr Brendan Lloyd â'r Ymddiriedolaeth ym mis Awst 2014 ar ôl arwain gyrfa fel meddyg teulu, a ddechreuodd mewn practis addysgu yn Abertawe yn y 1980au. Yn 2003, cwblhaodd ei MSc mewn Diabetes a daliodd swyddi fel Darlithydd Anrhydeddus yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd ac fel Cymrawd Ymchwil Clinigol Anrhydeddus yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe. Roedd Brendan yn Gyfarwyddwr Meddygol ar gyfer byrddau iechyd lleol yng Nghaerdydd (2004 – 2009) a Phowys (2009 – 2014) cyn ymuno â Gwasanaethau Ambiwylans Cymru. Cliciwch [**yma**](#) am y stori lawn.



Cinio Nadolig i staff a gwirfoddolwyr

Cytunodd pedwar ar hugain o dafarndai, gwestai a bwytai o bob rhan o Gymru yn hael i baratoi cinio Nadolig blasus i dros 700 o staff a gwirfoddolwyr fel arwydd o ewyllys da i'r rhai sy'n gweithio ar 25 Rhagfyr. Cafodd cydweithwyr a gwirfoddolwyr o fwy nag 80 o orsafoedd ambiwlans, canolfannau cyswllt clinigol ac amgylcheddau eraill sy'n gweithio sifft dydd fwynhau cinio, y mae rhai ohonynt wedi'u darparu'n rhad ac am ddim. Cliciwch [**yma**](#) am y stori lawn.

Triawd o gydweithwyr yn cael eu cydnabod yn Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd

Mae Wendy Herbert, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Nyrsio'r Ymddiriedolaeth, wedi ennill Medal Gwasanaeth Ambiwylans y Brenin (KAM) am wasanaeth nodedig. Mae Ymatebwr Cyntaf yn y Gymuned Gerry Adams wedi'i benodi'n Aelod o Urdd Fwyaf Rhagorol yr Ymerodraeth Brydeinig (MBE) am wasanaethau gwirfoddol i'r gymuned yn y Barri. Ac mae Linda Williams, Gweinyddwr Cefnogi Gwirfoddolwyr, wedi ennill Medal yr Ymerodraeth Brydeinig (BEM) am wasanaethau i gynllun Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned yng ngogledd Cymru. Llongyfarchiadau i Wendy, Gerry a Linda. Cliciwch [**yma**](#) am y stori lawn.





Ymddiriedolaeth yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol Gwirfoddolwyr

Talwyd teyrnged i'w gwirfoddolwyr fel rhan o Ddiwrnod Rhyngwladol Gwirfoddolwyr. Mae Diwrnod Rhyngwladol Gwirfoddolwyr (5 Rhagfyr) yn ddathliad blynyddol o'r cyfraniad y mae miliynau o bobl ledled y byd yn ei wneud drwy wirfoddoli. Mae bron i 600 o wirfoddolwyr yn rhoi o'u hamser i gefnogi'r gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru, gan gynnwys 460 o Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned a 110 o Yrwyr Gwasanaeth Ceir Gwirfoddol. Cliciwch [yma](#) i ddarllen y stori lawn.



Cymryd rhan

Ydych chi wedi clywed am StayWise Cymru?

Mae StayWise Cymru yn llyfrgell ar-lein rhad ac am ddim sy'n llawn adnoddau brys a diogelwch, sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm addysgu Cymraeg newydd. Gallwch ddod o hyd i ddeunydd dibynadwy i helpu i gadw plant yn ddiogel. P'un a ydych chi'n addysgwyr sy'n edrych i wella'ch addysgu a'ch dysgu neu'n aelod o sefydliad golau glas neu sefydliad sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch sy'n chwilio am gynnwys atal, mae gan StayWise Cymru adnoddau i chi. Cliciwch [yma](#) i ddarganfod mwy.



Llunio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd

Rydym yn gwahodd rhanddeiliaid, defnyddwyr gwasanaethau a staff i rannu eu barn am sut y gallwn wneud Gwasanaeth Ambiwylans Cymru yn fwy cynhwysol. Cliciwch [yma](#) i ddarllen ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft a dweud eich dweud.



Ymgyrch y Mis

Rydw i'n fam I rhywun.
Trwy fy mrifo i rwyf ti'n
brifo fy nheulu i.

Gweithia gyda fi,
nid yn fy erbyn.

Nid yw ymosod ar ein gweithwyr
brys yn dderbyniol.

#GydaNiNidYnEinHerbyn

